**Y PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL EOC 02-02(p1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 6 Mawrth 2002 |
| **Amser:** | 9.30am |
| **Lle:** | Ystafell Bwyllgora 3-4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Adroddiad y Cadeirydd – materion yn codi |

**Diben**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n codi o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2002.

**Argymhelliad**

2. Gofynnir i'r aelodau nodi cynnwys yr adroddiad.

***Newidiadau i'r System Lloches***

3. Anfonwyd cyswllt i'r Papur Gwyn ar y newidiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref mewn perthynas â cheiswyr lloches trwy'r e-bost ar 8 Chwefror. Dyma gyfeiriad y cyswllt: http://www.official-documents.co.uk/document/cm53/5387/cm5387.pdf

***Llinell Gymorth Comisiwn Hawliau'r Anabl***

4. Ysgrifennais at yr aelodau ar 12 Chwefror i roi'r manylion.

***Cynllun Gweithredu Adroddiad McKenzie***

5. Ar 11 Chwefror, dosbarthodd y Clerc lythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol a oedd yn cynnwys yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr, gan gynnwys fersiwn wedi'i ailddrafftio o'r strategaeth ar gyfer recriwtio a lleoli staff.

***Adolygiad Sipsiwn Crwydrol***

6. Mae llythyrau wedi'u hanfon yn gwahodd tystiolaeth ysgrifenedig a datganiadau o ddiddordeb mewn swydd ymgynghorydd arbenigol. Mae copïau ar gael ar Rhyngrwyd a Mewnrwyd y Cynulliad.

7. Mae’r Llywydd wedi cymeradwyo taith arfaethedig y pwyllgor i ymweld â’r Awdurdod Cydraddoldeb yn Nulyn ar 10-12 Ebrill. Mae’r Clerc wrthi’n llunio rhaglen fanwl ar gyfer yr ymweliad a bydd yn dosbarthu’r manylion cyn gynted ag y bo modd.

***Tâl i’r rheini a benodir i Swyddi Cyhoeddus***

8. Ysgrifennais at aelodau’r pwyllgor ar 27 Chwefror ynghylch yr adolygiad, gan geisio barn am y newidiadau y bwriedir eu gwneud er mwyn cymryd pryderon yr aelodau i ystyriaeth.